**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Cadeiryddion y GIG

19 Rhagfyr 2025

Annwyl Gydweithwyr,

***Trawsnewid Gwasanaethau i Ddarparu Iechyd a Gofal Gwell*** **- Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2026-2029**

Rydym yn cyhoeddi Fframwaith Cynllunio newydd bob blwyddyn ar gyfer y GIG. Mae'n adeg hanfodol yn ein calendr blynyddol, pan rydym yn pennu ein blaenoriaethau nesaf. Mae'r blaenoriaethau hyn yn ddewisiadau Gweinidogol, sydd wedi'u cynllunio i wneud gwasanaethau'n well, ac i helpu i lywio'r GIG tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy. Ac maent yn adeiladu ar ofyniad sylfaenol ar gyfer pob corff iechyd yng Nghymru, nad oes modd ei newid, ac na fydd yn newid byth: darparu gofal diogel o ansawdd uchel i bawb sydd ei angen, o fewn yr adnoddau sydd ar gael, ac yn gynaliadwy.

Gwn fod y cyd-destun yn heriol iawn eleni. Rwy'n gofyn i'r GIG gadw gwasanaethau'n ddiogel a gwneud gwelliannau, ar adeg pan fo'r pwysau ariannol yn sylweddol, pan fo'r galw'n cynyddu, a phan fo staff eisoes yn cyflawni mwy bob blwyddyn. Ond mae gennyf hyder mawr y bydd y GIG yn ateb yr her hon. Mae eich dyhead am welliant mor fawr â'm un i, mae eich arloesedd a'ch creadigrwydd yr un mor ddisglair, a gwyddom na fydd sefyll yn llonydd yn sicrhau GIG sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Rwyf hefyd yn glir yn fy nisgwyliad y bydd eich cynlluniau'n galw am ddewisiadau anodd ac na fyddant yn cynnwys llawer o welliannau a fyddai'n ddymunol fel arall, y tu hwnt i'r chwe maes ffocws a nodir isod.

Rydym wedi gweld cynnydd da dros y 12 mis diwethaf ac, yn gyntaf, hoffwn ddiolch i bawb yn GIG Cymru am eu hymdrechion a'u hymrwymiad sylweddol mewn cyfnod heriol. Er enghraifft, rydym wedi gweld lleihad yn nifer y cleifion sy'n aros dros ddwy flynedd am driniaethau gofal a gynlluniwyd a gwelliant yn yr amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau canser, llai o oedi wrth drosglwyddo cleifion o ambiwlansys a llai o achosion o oedi wrth ryddhau cleifion o ysbytai. Mae hefyd yn dda gweld bod cynlluniau ar waith ym mhob bwrdd iechyd i sefydlu Hybiau Iechyd Menywod braenaru erbyn diwedd y flwyddyn ariannol a bod gwaith yn mynd rhagddo i ddarparu rhaglen sgrinio genedlaethol ar gyfer canser yr ysgyfaint.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'n bwysig ein bod yn adeiladu'n gyflym ar y cynnydd hwn er mwyn gwella iechyd a llesiant pobl, a sicrhau y gall cleifion gael y gofal sydd ei angen arnynt, ble a phryd y mae ei angen arnynt.

Mae'n rhaid inni fynd i'r afael â heriau heddiw, ac ar yr un pryd symud ymlaen yn gyflym â'r broses drawsnewid a fydd yn arwain dros y tymor hwy at wasanaeth mwy effeithiol a chynaliadwy, a chanlyniadau iechyd gwell.

Er mwyn rhoi cyfeiriad clir a chyson ichi ar gyfer y cyfnod i ddod, mae Fframwaith Cynllunio GIG Cymru ar gyfer 2026-2029 yn adlewyrchu'r Fframwaith blaenorol ac yn adeiladu arno, ac mae'n cyd-fynd â'r ymrwymiadau a wnaed gan Brif Weinidog Cymru mewn perthynas â gofal a gynlluniwyd, llwybrau gofal gohiriedig ac iechyd menywod.

Mae'n rhaid inni adeiladu ar y cynnydd a wnaed eleni, i gyflawni argymhellion y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Berfformiad a Chynhyrchiant a'r blaenoriaethau a bennwyd gennyf yn fy llythyr ar 3 Gorffennaf 2025, *Gwella Perfformiad Gyda'n Gilydd*. Mae'r Fframwaith Cynllunio hwn yn ailddatgan y disgwyliadau hynny, ac rwy'n disgwyl i sefydliadau'r GIG sicrhau bod y rhain wedi'u hymgorffori yn eich trefniadau cynllunio.

Rwy'n cysoni'r Fframwaith hwn â'r dyraniadau ariannol i fyrddau iechyd. Bydd y rhain yn helpu i liniaru effaith pwysau chwyddiant a phwysau o ran galw na ellir eu hosgoi ar wasanaethau rheng flaen, ond mae'n setliad ariannol heriol, heb unrhyw gyllid dewisol i'w fuddsoddi. Rwy'n disgwyl i fyrddau iechyd wneud mwy i fynd i'r afael â gwastraff, niwed ac amrywiad, ynghyd â chynyddu cynhyrchiant ac effeithlonrwydd.

Rwy'n disgwyl i bob corff iechyd ddatblygu a chyflwyno cynlluniau sy'n sicrhau cydbwysedd ariannol.

**Fy Mlaenoriaethau Strategol Tair Blynedd ar gyfer GIG Cymru**

Mae'r Fframwaith hwn yn nodi'r blaenoriaethau strategol y mae'n rhaid i bob bwrdd iechyd eu cyflawni, a (lle y bo'n berthnasol) sefydliadau eraill y GIG dros y tair blynedd nesaf.

**Y meysydd y mae'n rhaid ichi ganolbwyntio arnynt yw:**

- **Mynediad Amserol at Ofal**
- **Iechyd y Boblogaeth ac Atal**
- **Dull Gweithredu Cymunedol o'r Cychwyn**
- **Mynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl**
- **Iechyd Menywod**
- **Ansawdd a Diogelwch**

**Mae'r disgwyliadau cyflawni sylfaenol o dan bob un o'r meysydd blaenoriaeth strategol hyn wedi cael eu hailwampio ar gyfer 2026-27 a chânt eu nodi yn Atodiad 1.**

Mae'r meysydd ffocws yr un fath i raddau helaeth, er mwyn sicrhau parhad, ond rwyf wedi dewis dwyn ynghyd ein blaenoriaethau ar ansawdd a diogelwch a thynnu sylw atynt yn y Fframwaith Cynllunio hwn.

**Mynediad Amserol at Ofal**

Rydym wedi ailwampio ein canllawiau ar atgyfeirio at driniaeth ac wedi darparu mynediad cyflymach at brofion a sganiau. Mae hyn yn golygu ein bod yn lleihau'r amser y mae cleifion yn aros am brofion diagnostig, gan leihau amseroedd aros am driniaeth yn yr ysbyty, yn enwedig i'r sawl sydd wedi bod yn aros hiraf a lleihau'r rhestr aros gyffredinol. Ond mae llawer mwy i'w wneud o hyd.

Rwy'n disgwyl i sefydliadau'r GIG ystyried cyfleoedd i gryfhau'r ffordd y maent yn cyfathrebu â'u cleifion ar restrau aros fel bod cleifion yn gwybod mwy am eu hamseroedd aros tebygol. Gall fod yn gyfnod anodd a phryderus i gleifion, a chredaf ei bod yn bwysig eu bod yn ymgysylltu'n llawn â'u gofal, fel eu bod yn gwybod beth i'w ddisgwyl.

Wrth ganolbwyntio ar y sawl sydd eisoes yn aros am driniaeth, rhaid inni hefyd fanteisio ar y cyfle i feddwl yn wahanol am y ffordd rydym yn darparu gofal yn y dyfodol drwy ddefnyddio'r cyfle sydd gennym o ran byrddau iechyd integredig a chynyddu'r hyn y gellir ei wneud mewn gofal sylfaenol a chymunedol drwy ddull gweithredu Cymunedol o’r Cychwyn.

Gwyddom fod pwysau ar ein hadrannau achosion brys o hyd a bod amseroedd aros hir i drosglwyddo cleifion o ambiwlansys yn cyflwyno risg sylweddol o niwed i gleifion y gellir ei hosgoi. Croesawais argymhelliad Grŵp Cynghori'r Gweinidog yn nodi'r angen i gynllunio i drosglwyddo pob claf o fewn 45 munud. Rydym wedi gweld cynnydd yn ystod y flwyddyn hon, ond rwy'n disgwyl i fyrddau iechyd wella llif cleifion yn gyflym, fel bod y disgwyliad hwn yn cael ei gyflawni fel arfer safonol, ledled Cymru gyfan.

**Iechyd y Boblogaeth ac Atal**

Gwyddom fod angen inni wella iechyd hirdymor pobl a lleihau anghydraddoldebau iechyd er mwyn gwella disgwyliad oes a llesiant ein poblogaeth. Mae gan Gymru gyfraddau uwch o farwolaethau y gellir eu hatal na gwledydd tebyg. Mae hyn yn golygu bod angen canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynharach yn eich cynlluniau, gan gynnwys cymorth i bobl roi'r gorau i smygu, byw bywydau iachach a lleihau cyfraddau gordewdra, yn enwedig ymhlith ein plant, a rheoli clefydau cronig megis diabetes. Dylai eich cynlluniau hefyd ysgogi cynnydd yn y nifer sy'n cael brechlynnau, gan gynnwys imiwneiddiadau plant, gan adeiladu ar raglenni dal i fyny dros y flwyddyn ddiwethaf a lleihau annhegwch o ran brechlynnau.

Yn unol â’r dull gweithredu Cymunedol o’r Cychwyn, rhaid i'r gwaith o gomisiynu a darparu gwasanaethau iechyd a gofal yn eich ardal fod yn seiliedig ar anghenion iechyd eich poblogaeth. Rwy'n awyddus i weld dulliau rheoli iechyd y boblogaeth yn cael eu hadlewyrchu yn y ffordd integredig y caiff eich gwasanaethau eu cynllunio, yn enwedig ar lefel y gymuned, a gefnogir gan adnodd segmentu'r boblogaeth a phennu lefelau risg cenedlaethol.

Ar lefel y boblogaeth, bydd Cymru'n dod yn genedl Marmot er mwyn cefnogi ein gwaith i leihau anghydraddoldebau iechyd drwy weithio'n lleol ac yn genedlaethol i gymhwyso egwyddorion Marmot – o blentyndod cynnar ac addysg i gyflogaeth, atal afiechyd, tai a llesiant cymunedol. Rwy'n awyddus i weld sut y byddwch yn gweithio gyda phartneriaid eraill y tu allan i'r GIG i symud ymlaen â'r dulliau gweithredu hyn.

**Dull gweithredu Cymunedol o’r Cychwyn**

Yn ogystal â rhoi atal ac iechyd y cyhoedd wrth wraidd GIG Cymru, rhaid inni wneud mwy o gynnydd wrth ddarparu gwasanaethau integredig yn y gymuned, gan symud o ddull diofyn o ddarparu gofal mewn ysbyty i ddull gweithredu Cymunedol o’r Cychwyn, gan helpu pobl â chyflyrau hirdymor neu fregusrwydd yn arbennig i barhau'n iach ac i gael gofal yn eu

cymunedau. Rwy'n disgwyl gweld sut rydych yn bwriadu cyd-ddylunio'r modelau gwasanaeth hyn gyda'ch cymunedau, gan gydweithio â phractisau meddygon teulu, partneriaid allweddol a rhanddeiliaid eraill, i ddarparu gwasanaethau integredig yn y gymuned a sut y byddwch yn cynyddu'r gwariant cymesur ar wasanaethau sylfaenol a gwasanaethau cymunedol yn ystod 2026-29.

Mae'n rhaid inni gydnabod bod galw cynyddol am wasanaethau a chostau cynyddol yn golygu bod ein system gofal cymdeithasol dan bwysau o hyd. Rwy'n disgwyl i sefydliadau'r GIG barhau i weithio'n agos gyda'u partneriaid allweddol i helpu i sicrhau bod y gofal a ddarperir yn canolbwyntio ar unigolion, yn dosturiol ac yn ddigon hyblyg i addasu i anghenion newidiol unigolyn ac mae'n bwysig bod eich cynlluniau'n cefnogi ymdrech ar y cyd â gwasanaethau gofal cymdeithasol i osgoi derbyn cleifion yn ddiangen i'r ysbyty a gwelliant pellach yn nifer y cleifion sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn amserol. Bydd cysondeb â chynlluniau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac ymrwymiad i'w cyflawni yn allweddol.

## Mynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl di-dor, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac wedi'u harwain gan anghenion. Yn gynharach eleni, datblygodd y Rhaglen Iechyd Meddwl Strategol, Perfformiad a Gwella GIG Cymru, ganllawiau o'r enw 'Trawsnewid ein system yn gefnogaeth iechyd meddwl mynediad agored – Gwybodaeth Gefnogi', gan osod disgwyliadau clir ar gyfer gweddill 2025-26. Roedd hyn yn cyd-fynd â dull gweithredu 'Cymunedol o'r Cychwyn' ac yn hanfodol er mwyn parhau i wella ansawdd, diogelwch, profiad a chanlyniadau, a bydd datblygu'r agenda yn ddi-oed yn rhoi ein gwasanaethau iechyd meddwl mewn sefyllfa gryfach i ddarparu'r gwasanaethau cynaliadwy sydd eu hangen arnom i gyflawni trwy gydweithio. Rwy'n disgwyl y bydd eich cynlluniau ar gyfer 2026-29 yn adeiladu ar hyn ac yn sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl yn cael eu siapio drwy gyd-fynd â Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol 2025-35.

## Iechyd Menywod

Mae'r cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf i atgyfnerthu gwasanaethau iechyd menywod wedi bod yn galonogol, ond mae angen inni wneud mwy i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau iechyd y mae menywod yn parhau i'w hwynebu. Gwyddom fod heriau difrifol mewn perthynas â chael gafael ar ofal iechyd, gan gynnwys tabŵ, stigma a diffyg dealltwriaeth gan eraill wrth drafod eu hiechyd a'u llesiant – a all beri rhwystr wrth geisio cael y cymorth cywir. Mae'r Cynllun Iechyd Menywod yn nodi'r gwelliannau sydd eu hangen ar draws Cymru. Mae'r ymrwymiad a ddangosir gan fyrddau iechyd i sefydlu hwb iechyd menywod braenaru erbyn mis Mawrth 2026 yn galonogol. Mae'n rhaid inni adeiladu ar hyn i ddarparu'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i fenywod, a hynny mor lleol â phosibl, a chyflawni canlyniadau gwell. Rwy'n awyddus i weld hyn yn cael ei adlewyrchu yn eich cynlluniau.

## Ansawdd a Diogelwch

Mae'n rhaid i ymdrin â niwed, gwastraff ac amrywiadau direswm mewn gwasanaethau clinigol fod yn brif ystyriaeth o ran cynllunio sefydliadol a chyflawni gweithredol. Mae eich sefydliadau yn ddarostyngedig i'r Ddyletswydd Ansawdd a'r Safonau Iechyd a Gofal - a dylai hyn lywio'r penderfyniadau a wneir gennych. Hoffwn weld hyn yn cael ei adlewyrchu'n gryfach yn eich cynlluniau ac, fel gofyniad sylfaenol, hoffwn weld sut mae eich sefydliadau

yn bwriadu gweithio tuag at y disgwyliadau a nodir yn y Datganiadau Ansawdd, gan gynnwys y rhai ar gyfer canser, clefydau cylchrediad, diabetes, a Gofal Lliniarol a Diwedd Oes.

Dylech hefyd nodi gwasanaethau clinigol sy'n bodloni'r egwyddorion ar gyfer eiddilwch a ddisgrifir yn y Fframwaith Clinigol Cenedlaethol gyda'r nod o fynd i'r afael â nhw. Dylai'r amrywiadau a nodwyd yn y Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau a'r Rhaglen Archwiliadau Clinigol Cenedlaethol ac Adolygu Canlyniadau gael eu defnyddio fel mater o drefn, a dylai camau gwella gael eu hystyried yn rheolaidd fel rhan o'ch trefniadau sicrhau ansawdd a llywodraethu.

**Disgwyliadau Cyflawni Blwyddyn 1 ar gyfer 2026-27**

**Mae'r disgwyliadau cyflawni sylfaenol a nodir yn Atodiad 1 yn tynnu sylw at y meysydd blaenoriaeth uchaf ac felly dylai eich cynlluniau ar gyfer blwyddyn-1 (2026-2027) ganolbwyntio ar y rhain.**

Dylai sicrhau'r canlyniadau hyn fod wrth wraidd y ffordd rydych yn defnyddio eich adnoddau a'ch capasiti i gyflawni yn gyflymach ag adnoddau presennol. Bydd angen ichi flaenoriaethu partneriaethau â'r sector gofal cymdeithasol er mwyn gwneud cynnydd yn rhai o'r meysydd hyn. Bydd bodloni'r disgwyliadau hyn yn helpu i sicrhau'r gwelliannau o ran perfformiad a chanlyniadau yr hoffai pob un ohonom eu gweld ym mlwyddyn 1 eich cynlluniau (2026-27). Rwy'n disgwyl gweld gwelliant parhaus a chyson tuag at gyflawni'r holl feysydd blaenoriaeth strategol dros y tair blynedd.

**Camau Galluogi**

**I'ch helpu i gyflawni'r disgwyliadau hyn, rwyf hefyd yn gosod cyfres ddiwygiedig o gamau galluogi (wedi'u hatodi fel Atodiad 2) yr wyf yn eu mandadu unwaith eto ar sail “mabwysiadu neu gyfiawnhau”.**

Mae'r rhain wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu'r cynnydd a wnaed dros y 12 mis diwethaf a'u nod yw ysgogi gwelliannau'n gyson a lleihau amrywiadau. Mae gan bob un ohonynt sylfaen dystiolaeth i ddangos gwell effeithlonrwydd a/neu ganlyniadau, heb arwain at gost ychwanegol. Ffrwyth gwaith a wnaed gan y Rhaglenni Strategol Cenedlaethol a'r Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd yw'r rhain. Mae sawl un o'r camau galluogi yn ymwneud â gweithgareddau y mae'n rhaid eu dadflaenoriaethu a rhoi'r gorau iddynt pan fydd tystiolaeth o wastraff, niwed neu amrywiad sy'n arwain at fawr ddim gwerth clinigol neu effeithiolrwydd os o gwbl. Rhaid adlewyrchu camau i gyflawni'r camau galluogi a fandadwyd, ynghyd ag asesiad o'r cynhyrchiant, yr effeithlonrwydd a/neu'r enillion ariannol cysylltiedig yn eich cynlluniau hefyd.

Rwy'n siomedig na fydd pob un o'r camau galluogi ar gyfer 2025-26 wedi cael eu cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn. Camau “mynd ati i'w gwneud” yw'r rhain ac, gan gydnabod y cynnydd a wnaed dros y flwyddyn diwethaf, rhaid gwneud mwy o lawer i sicrhau y cânt eu gweithredu yn ystod 2026-27. **Rwy'n disgwyl i asesiad sefydliadol clir o'r llinell sylfaen, a'r gwelliannau y byddwch yn eu rhoi ar waith, fesul cam galluogi, gael eu cynnwys fel atodiad i'ch cynllun.**

**Mae'n rhaid i'ch cynlluniau hefyd gynnwys asesiad o'ch cynnydd wrth gyflawni argymhellion y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar berfformiad a chynhyrchiant a'r**

**blaenoriaethau a nodwyd yn Gwella Perfformiad Gyda'n Gilydd, yn ogystal â'ch ymrwymiad i gyflawni'r rhain yn ystod 2026-27.**

Er bod y Fframwaith hwn yn glir o ran y blaenoriaethau cenedlaethol y mae angen i'ch cynlluniau ganolbwyntio arnynt fwyaf, rwy'n cydnabod, wrth gwrs, bod angen i sefydliadau'r GIG gomisiynu a/neu ddarparu ystod eang o wasanaethau i wella iechyd eich poblogaethau a bodloni amcanion strategol *Cymru Iachach*, gyda'r adnoddau sydd ar gael i chi. Hyderaf y bydd eich Byrddau yn cadw'r cydbwysedd hwn mewn cof wrth wneud penderfyniadau a dewisiadau mewn meysydd eraill.

Fel sefydliadau'r GIG, chi sydd yn y sefyllfa orau i nodi anghenion eich poblogaethau lleol, felly wrth amlinellu fy nisgwyliadau o ran cyflawni'r blaenoriaethau strategol cenedlaethol tair blynedd, disgwyliadau cyflawni Blwyddyn 1 a'r camau galluogi, rwy'n cydnabod bod hyn yn golygu mwy o hyblygrwydd o ran cyflawni mewn meysydd eraill. Wrth ichi ddatblygu eich cynlluniau, byddai'n ddefnyddiol cael deialog agored â chi wrth ichi ystyried yr opsiynau a'r dewisiadau sydd ar gael.

**Fframwaith Ariannol**

Dylid cyflawni'r disgwyliadau a nodir yn y Fframwaith Cynllunio hwn gan ddefnyddio adnoddau presennol. Bydd sicrhau'r cynnydd sydd ei angen yn 2025/26 o ran rhoi camau galluogi ar waith, ynghyd â lleihau'r rhestr aros, yn gwella effeithiolrwydd a chynaliadwyedd gwasanaethau yn barhaus. Fodd bynnag, rhaid inni gyflawni mwy gyda'r adnoddau presennol i leihau costau'n briodol, cynyddu cynhyrchiant a mynd i'r afael ag amrywiad, wrth wella canlyniadau.

Rwy'n disgwyl i bob corff iechyd ddatblygu a chyflwyno cynlluniau sy'n sicrhau cydbwysedd ariannol.

Wrth ichi ddatblygu eich cynlluniau, hoffwn bwysleisio'r canlynol:

- Diben y cyllid ychwanegol newydd a ddarparwyd yn y llythyr dyrannu yw cefnogi galw na ellir ei osgoi a chwyddiant anochel, wrth gefnogi gwasanaethau rheng flaen. **Dylid ei ddefnyddio at y diben hwn yn unig**. Rwy'n disgwyl i'r cynlluniau fod yn rhydd o fuddsoddiad dewisol.

- Mae fy swyddogion wedi gwneud gwaith i gynnwys cymaint o gyllid â phosibl yn llinell sylfaen dyraniadau craidd ac, yn gyfnewid, disgwylir i fyrddau iechyd gynllunio gweithredu o fewn yr adnodd hwnnw.

- Rwy'n disgwyl newid sylweddol mewn cyflawniad ac y caiff pob cam galluogi ei roi ar waith yn gyson.

- Bydd angen i gyrff iechyd sicrhau eglurder a gweledEdd ar gyfer arbedion sylweddol mewn meysydd nad ydynt yn rhai craidd a gorbenion i flaenoriaethu gwasanaethau rheng flaen, i sicrhau bod arbedion a mesurau lliniaru a gyflawnir yn 2025/26 yn cael eu cynnal yn llawn ar sail reolaidd, ac i gyflawni'r arbedion a'r mesurau lliniaru costau sy'n ofynnol i sicrhau cydbwysedd ariannol. Ni all unrhyw faes gwariant gael ei eithrio o hyn a'r angen i wella cynhyrchiant. Caiff y drafft cyntaf o fodel cynhyrchiant ffactorau cyfan y GIG yng Nghymru ei ddarparu i fyrddau iechyd dros y misoedd nesaf, ac rwy'n disgwyl i bob bwrdd ddatblygu cynlluniau clir a meintioledig yn dangos sut y bydd eu camau yn cyflawni cynnydd meintioledig mewn cynhyrchiant yn 2026/27.

- Rwy'n disgwyl i gyrff iechyd ddod i gytundeb yn rhagweithiol ynglŷn â chomisiynu a darparu gwasanaethau ar draws ffiniau sefydliadol a chryfhau trefniadau cydweithio rhanbarthol.

- Mae'n rhaid i'ch sefydliadau barhau i feddu ar y lefelau uchaf o drefniadau rheoli ariannol cryf ac effeithiol, sy'n cefnogi prosesau rheoli costau

- O ystyried maint y buddsoddiad yn 2025/26 i fynd i'r afael ag ôl-groniadau triniaethau, gyda'r gwaith ar gamau galluogi, a chynhyrchiant, bydd gan nifer o feysydd ddatrysiadau cynaliadwy yn rheolaidd. Rwy'n cadw £20m o gyllid i gefnogi gostyngiad mewn amseroedd aros mewn meysydd sy'n peri her o hyd. Caiff y cyllid hwn ei ddefnyddio ar sail gyfarwyddiadol, dim ond pan ddangosir bod pob cyfle i sicrhau cynaliadwyedd a chynhyrchiant wedi cael ei ystyried. Caiff y sefyllfa hon ei hasesu drwy'r broses gynllunio.

- Rwyf wedi penderfynu buddsoddi mewn Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) er mwyn cynyddu capasiti a gweithgarwch yn y sector gofal sylfaenol, yn agosach at adref, yn rhagweithiol er mwyn cefnogi ffocws a datblygiad disgwyliedig y rhaglen Cymunedol o’r Cychwyn. Rwy'n disgwyl i'ch cynlluniau ddangos sut y byddwch yn symud gweithgarwch ac adnoddau oddi wrth leoliadau gofal eilaidd i ofal sylfaenol a chymunedol.

- Bydd cynnydd mewn dyraniadau cyfalaf dewisol, sy'n godiad o 12% ar y dyraniad llinell sylfaen, i gefnogi cynlluniau a gwydnwch lleol.

**Arweinyddiaeth a Thryloywder y System**

Hwn yw fy ail Fframwaith Cynllunio fel Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac mae ymroddiad ein gweithlu yn y GIG yn parhau i'm syfrdanu. Y bobl hyn sydd wrth wraidd popeth a wnawn i'n cleifion. Mae'n rhaid inni barhau i ganolbwyntio, mewn partneriaeth gymdeithasol, ar ffyrdd o ymgysylltu â'n pobl a'u grymuso i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd ddiogel, effeithiol a hyblyg.

Mae'n rhaid inni barhau i arwain â thosturi ar bob lefel o'r GIG ac mae angen ymgysylltu â'r gweithlu er mwyn gwneud hyn. Mae'r gweithlu yn allweddol i gyflawni'r trawsnewidiad a'r gwelliannau y mae pob un ohonom am eu gweld. Rwy'n disgwyl clywed sut mae sefydliadau yn parhau i ddatblygu eu harweinyddiaeth a'u diwylliant i sicrhau diogelwch, iechyd a llesiant eu gweithlu i'w galluogi i gyflawni, optimeiddio effeithiolrwydd eu timau a gwella eu gwasanaethau. Mae arweinyddiaeth glinigol yn hanfodol yn hyn o beth, gan gyfeirio'r GIG at welliant ym muddiannau cleifion. Mae wedi bod yn braf gweld gwelliannau gwirioneddol eisoes yn y maes hwn, yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol, ac edrychaf ymlaen at weld mwy fyth yn y misoedd nesaf.

Gallwn wneud mwy gyda'n gilydd i symleiddio'r gydberthynas rhwng Llywodraeth Cymru a sefydliadau'r GIG, fel y gallwn sicrhau bod ein systemau adrodd ar ddata, atebolrwydd a systemau eraill yn dryloyw, yn gymesur ac yn lleihau achosion o ddyblygu. Rydym eisoes wedi cymryd camau mewn rhai meysydd, er enghraifft y Cyfarfodydd Atebolrwydd Cyhoeddus newydd, ond mae mwy i'w wneud. Drwy ymgysylltu mwy – ac yn fwy effeithiol – â'n cleifion a'n staff, gan ddangos tryloywder yn yr hyn a wnawn a chroesawu atebolrwydd a myfyrdod gonest, credaf ein bod yn ymgorffori gwelliant yn ein bywydau gwaith.

Rwy'n awyddus i sicrhau bod pob rhan o'n GIG yn ceisio dysgu'n gyson o arferion gorau o fewn y GIG yng Nghymru a thu hwnt, gan gydweithio'n rhagweithiol i nodi enghreifftiau llwyddiannus o arloesedd a chymhwyso egwyddor “addasu, mabwysiadu neu gyfiawnhau”. Mae hyn yn cynnwys yr angen i wneud llawer mwy o ddefnydd o arloesedd digidol. Mae'r buddiannau i gleifion yn enfawr. Byddwn yn parhau i weithio gyda chi i sicrhau saernïaeth ddigidol genedlaethol gref.

Bydd angen datrysiadau rhanbarthol er mwyn sicrhau ansawdd, mynediad a lefelau gofal na all un sefydliad yn unig eu cyflawni yn aml. Lle mae heriau o'r fath yn bodoli, rwy'n disgwyl i'ch cynlluniau nodi cynigion rhanbarthol gwirioneddol, sy'n dangos sut y bydd eich sefydliadau'n cydweithio i atgyfnerthu gwasanaethau, a gwneud y gorau o'r sgiliau a'r cyfleusterau sydd ar gael yn eich rhanbarthau i wella canlyniadau i gleifion.


Mae'n rhaid i'r holl waith cynllunio a chyflawni sefydliadol gael ei seilio ar egwyddorion gwella ansawdd, diogelwch, canlyniadau a gwerth, a chael ei gefnogi, yn ei dro, gan gynlluniau galluogi cadarn ar gyfer cyfalaf, digidol, gwaith cydweithredol, gweithlu'r GIG, gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael.

Ni allwn anghofio am y blaenoriaethau trawslywodraethol fel y Cynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru newydd, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, y Gymraeg a chyflawni’r blaenoriaethau yn Mwy na Geiriau, ymhlith eraill. Yn ogystal, byddwn wrth gwrs yn disgwyl ichi weithio o fewn cyd-destun ac egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 a chofleidio Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth i ddarparu’r gofal rydym i gyd yn dymuno ei gyflawni, a hynny mewn modd cynaliadwy.

**Canlyniadau sydd o bwys i bobl**

Mae'n rhaid inni barhau i gydbwyso canlyniadau hirdymor gwell â mynd i'r afael â'r materion presennol sy'n wynebu ein cymunedau, ein cleifion, ein gweithlu a'n system iechyd a gofal cymdeithasol. Rwy'n cael fy rhyfeddu gan ymrwymiad eich staff sy'n gweithio ar y rheng flaen ac yn darparu gofal yn ein cymunedau, a faint y mae gwneud gwahaniaeth i gleifion a'u teuluoedd yn ei olygu iddynt. Drwy weithio gyda'n gilydd, rwy'n hyderus y gallwn wneud y gwelliannau y mae pob un ohonom am eu gweld, ac y mae pobl Cymru yn eu haeddu.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care